

Dyma'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i sefydliad eu cwrdd i fod yn gymwys am gyllid gan Plant mewn Angen y BBC:

Bydd ceisiadau sy'n cwrdd â'r safonau gofynnol hyn yn cael eu hasesu. I fod yn gymwys am grant, rhaid i gais fodloni ystod o feini prawf ychwanegol. Mae rhestr lawn o bolisiâu ariannu Plant mewn Angen y BBC ar gael yn ein [Canllawiau ABC](#).

Llywodraethu

- Corff Llywodraethu gyda thri aelod o leiaf (e.e. Ymddiriedolwyr neu, ar gyfer cwmnïau, Cyfarwyddwyr). Os oes aelodau sy'n perthyn, rhaid bob amser cael aelod annibynnol.
- Mae'r Corff Llywodraethu'n cwrdd bob chwarter o leiaf.
- Talu aelodau o'r Corff Llywodraethu:
 - Rhaid i hyn fod mewn cytundeb ffurfiol ysgrifenedig
 - Ar gyfer elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhaid i hyn fod yn y ddogfen lywodraethu neu ddogfen arall wedi'i chytuno gan y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd
 - Ar gyfer cwmnïau CIC, rhaid nodi hyn yn glir yn y ddogfen lywodraethu
- Mae'r dogfennau llywodraethu'n nodi'n glir:
 - Nad yw'r sefydliad yn un er gwneud elw, neu gyda chymal clir yn ei ddogfen lywodraethu'n sicrhau y defnyddir yr holl incwm ar gyfer pwrpasau'r sefydliad ac nid i'w ddsbarthu i aelodau, cyfranddalwyr neu berchnogion.
 - Amcanion elusennol sy'n addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y DU.
 - Cymal diddymu / cloi asedau yn ei le'n nodi y byddai'r asedau'n cael eu dosbarthu i sefydliad gydag amcanion elusennol tebygol pe bai'r sefydliad yn dod i ben.
 - Ar gyfer Cwmni Buddiannau Cymunedol rhaid i'r cymal cloi asedau nodi enw y sefydliad a ddewisiwyd

Ariannol

- Darparu'r cyfrifon swyddogol diweddaraf, wedi'u llofnodi a'u dyddio gan Gorff Llywodraethu. Os yw dros 18 mis oed, darparu eglurhad.
- Darparu rhagolygon ariannol os yw'r sefydliad yn ei 12-18 mis cyntaf o fod yn weithredol. Y rhagolygon i gynnwys, o leiaf:
 - Rhagolygon incwm
 - Rhagolygon gwariant
 - Rhywfaint o gynllunio / eglurder o ran cynhyrchu incwm
- O leiaf dau berson awdurdodedig i fod yn gyfrifol am dalu, a heb fod yn perthyn.

Diogelu

- Polisi diogelu yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio.
- Cynrychiolydd diogelu enwebedig yn y sefydliad.
- Hyfforddiant diogelu i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc:
 - Rhaid i'r hyfforddiant fod yn briodol i natur y gwaith, cwmpasu polisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad a chael ei loywi'n gyson.
- Mae pawb sy'n gweithio gyda phlant yn derbyn yr archwiliadau perthnasol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI. (Gallai hyn gynnwys staff, y pwyllgor rheoli, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr).
- Mae'r polisi Diogelu Plant yn cynnwys camau clir i'w cymryd yn achos digwyddiad neu ddatgeliad, gan gynnwys pwy i'w hysbysu a sut i gysylltu gyda nhw.